

# ADNODD 1:

## DOD YNGHYD YN DDIOGEL

**PETHAU MAE ANGEN I BAWB EU GWNEUD YN EICH DIGWYDDIAD AWYR AGORED**  
Aros 2 fetr ar wahân

(Yr eithriad yw gweithgareddau lle gall pobl dreulio cyfnodau byr o amser o fewn 2 fetr i'w gilydd, fel chwaraeon tîm)

### **ARFER DA I BAWB MEWN DIGWYDDIAD AWYR AGORED**

Gwisgo mwgwd

Defnyddio diheintydd dwylo wrth gyrraedd a gadael

### **PETHAU I CHI EU GWNEUD O FLAEN LLAW**

Cyfyngu ar nifer y bobl, yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru ar y pryd, trwy greu system docynnau / cofrestru o flaen llaw

Ystyried cynnal eich digwyddiad neu weithgaredd fwy nag unwaith, e.e. cynnal drama am 6pm ac yna 8pm, gyda bwlch amser rhwng pob cynulleidfa

Sgwennu asesiad risg o'r camau rhesymol sy'n cael eu cymryd gennych fel trefnydd, yn dibynnu ar eich gweithgaredd a'r lleoliad, a chymryd sylw o drefniadau'r lleoliad ei hun hefyd (esiampiau ar gael ar y we)

Rhannu'r neges bod yn rhaid i unrhyw un â symptomau Covid beidio â mynychu

Gosod arwyddion i annog pawb i gymryd cyfrifoldeb dros leihau'r risg: cadw 2 fetr ar wahân, gwisgo mwgwd a golchi eu dwylo

Gosod tâp ar y llawr i ddangos 2 fetr

Creu system un ffordd: pawb i gyrraedd o un cyfeiriad a gadael i gyfeiriad arall

Rhoi diheintydd dwylo a thywelion papur yn y lleoliadau hynny

### **PETHAU I CHI EU GWNEUD AR Y PRYD**

Casglu manylion cyswllt pawb sy'n dod i'ch digwyddiad a'u cadw am 21 diwrnod

Golchi unrhyw gyfarpar sy'n cael eu cyffwrdd rhwng pob defnydd

**CADWCH LYGAD AR WEFAN LLYWODRAETH CYMRU I WNEUD YN SIŴR EICH BOD YN DILYN Y CANLLAWIAU DIWEDDARAF**

# ADNODD 2:

## DEFNYDDIO EIN CYFRYNGAU

Mewn oes o bontio rhwng cyfryngau traddodiadol a digidol, sut gallwn ni fanteisio ar yr holl gyfryngau sydd ar gael i ni, i'n helpu i drefnu, cyrraedd pobl a darlledu?

Dyma rai esiamplau o gyfryngau sy'n dda am wneud gwahanol bethau:

### 1. CYNNAL SGWRS

#### **PAM CYNNAL SGWRS?**

I ddod â phobl amrywiol ynghyd i rannu syniadau, cymryd perchnogaeth a throsglwyddo egni i'n gilydd.

#### **CYFRYNGAU EFFEITHIOL**

**Yn y cnawd:** cwrdd mewn lle hygyrch, defnyddio adeiladau sy'n berchen i'r gymuned a mannau awyr agored, cwrdd mewn caffis a thafarndai

**Ar-lein:** Zoom, Microsoft Teams, Google Hangouts

**Cymysgedd o'r ddau,** gan wneud yn siŵr bod pawb yn clywed pawb

**Sgwrsio rhwng sesiynau:** grwpiau Whatsapp neu Messenger

**Cadw nodiadau:** Google doc, Miro neu Bwrdd Gwyn Zoom, gan roi mynediad a hawl sgwennu i bawb

**Cadw cofnod o dasgau:** Slack, Trello, Taskaid

#### **AWGRYMIADAU**

- Bydd cael pawb i eistedd mewn cylch yn cryfhau'r teimlad o dîm
- Ystyried cael hwylusydd i arwain, yn hytrach na 'chadeirio'
- Bydd cwestiynu agored yn well na chyflwyno gwybodaeth gyfyngedig

### 2. CYRRAEDD POBL

#### **PAM?**

I hyrwyddo beth sydd mlaen ac annog mwy i fwynhau bod yn rhan o'r gweithgaredd.

#### **CYFRYNGAU EFFEITHIOL**

**Ar lafar:** Cymryd pob cyfle i siarad, holi a rhannu eich syniad gyda'ch cyfoedion. Pobl sy'n gallu cael yr effaith fwyaf ar bobl

**Papur:** Posterï mewn mannau cyhoeddus a busnesau, taflenni mewn llefydd lle mae pobl yn cwrdd, calendr papur bro (angen cysylltu mis o flaen llaw)

**Digidol:** Ebyst aelodau, digwyddiad Facebook, grwpiau Facebook lleol, calendr gwefan fro, fideo fer, polls a storis Insta rhyngweithiol, hashnod, manteisio ar gymuned o ddiddordeb ar Twitter

**Eraill:** Mae angen meddwl yn greadigol. Oes 'na syniad am gartŵn, GIF neu meme?



### **AWGRYMIADAU**

- Meddwl pwy ry'n ni am ei gyrraedd (nid 'pawb') a ble maen nhw
- Ystyried penodi Swyddog Cyfryngau, a rhannu tasgau rhwng aelodau hefyd, e.e. bydd yn well gan rai greu'n ddigidol ac eraill i ddsbarthu poster. Mae rôl i bawb
- Wrth greu digwyddiad Facebook, mae angen cofio gwahodd pobl a bwydo gwybodaeth yn rheolaidd
- Mae'n werth gweithio nôl o'r dyddiad i rannu cynnwys hyrwyddo

### **3. DARLLEDU**

#### **PAM?**

I rannu syniadau, llwyddiannau a naws ein gweithgarwch gyda mwy o bobl ac ar draws cymdogaethau, gyda'r potensial i ysbrydoli eraill

#### **CYFRYNGAU EFFEITHIOL: Yn fyw o'r digwyddiad**

**Facebook / YouTube / Instagram Live, a Periscope**

**Blog byw** amlgyfrwng ac amlgyfranogwr ar wefan fro

**Darllediad fideo amlgamera:** ap Switcher Studio (iOS)

**Storis Insta:** annog pobl i gymryd drosodd ffrwd Insta am y dydd

#### **CYFRYNGAU EFFEITHIOL: Wedi'r digwyddiad**

**Fideo uchafbwyntiau:** apiau golygu iMovie (iOS) a YouCut (Android)

**Cyfres podlediadau:** ap golygu Audacity; dosbarthu ar raglen fel Anchor a gwefan Y Pod

**Stori** gyda fideos a lluniau ar wefan fro, neu ysgogi adolygiad gan rywun arall

**Adroddiad** i'r papur bro

#### **CYFRYNGAU EFFEITHIOL: Digwyddiadau ar-lein**

**Gweddarlledu sgwrs Zoom** ar Facebook Live, a derbyn sylwadau'n fyw

**Darlledu byw** gyda'r opsiwn i godi arian: ap AM

### **AWGRYMIADAU**

- Ystyried darlledu 'fel tasai'n fyw' os ydyn am ddenu cynulleidfa 'go iawn' hefyd
- Os am ffilmio digwyddiad cyfan, bydd angen digon o ffonau symudol llawn batri, creu lle yn y teclyn o flaen llaw, ac ystyried cwestiynau ymarferol - a fyddai treipod yn well na dal ffôn lan am oriau?
- Ystyried creu cynnwys 'y tu ôl i'r llen' fydd yn wahanol i'r prif adloniant
- Rhywbeth byr fydd pobl adre ishe'i weld

# ADNODD 3:

## PENODI SWYDDOGION: MAE SAWL FFORDD O'I GWNEUD HI

Efallai na fydd penodi'r swyddogion traddodiadol (e.e. Cadeirydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd) yn effeithiol rhagor.

Dyma rai esiamplau o ffyrdd eraill o greu tîm gweithgar sy'n cydweithio:

### TÎMAU FESUL DIDDORDEB

**Beth?** Creu rhestr fach o'r math o sgiliau sydd angen arnoch, ac annog pawb yn y grŵp i ddewis un tîm i berthyn iddi. Penodi captan i bob tîm am flwyddyn, sydd â'r rôl o arwain a dirprwyo tasgau.

**Mantais:** Ffordd o gynnwys pawb trwy'r pethau maen nhw'n gyffyrddus yn eu gwneud.

**Esiampl:** Côr yn sefydlu tîm cerddorol, tîm cyfathrebu, tîm aelodaeth, a thîm i drefnu digwyddiadau cymdeithasol.

### PAWB I WNEUD UN SWYDD

**Beth?** Rhannu swydd, e.e. Trefnydd Rhaglen, rhwng pob aelod, fel bod pawb yn cymryd eu tro. Gallai pâr o bobl â sgiliau gwahanol gydweithio.

**Mantais:** Llai o faich ar un person, a ffordd dda o gael amrywiaeth yn rhaglen y mudiad.

**Esiampl:** Cangen Merched y Wawr i benodi 12 person / pâr i fod yn gyfrifol am drefnu mis yr un o weithgareddau i'r calendr.

### AILWAMPIO SWYDDI

**Beth?** Ystyried a fyddai'n well cael 'swyddog cyfryngau cymdeithasol' yn hytrach na 'swyddog y wasg'? A fyddai pennu un person gwahanol i gymryd cofnodion ym mhob cyfarfod yn well na phenodi un person am y flwyddyn?

**Mantais:** Rhoi'r egni yn y llefydd y mae eu hangen yn yr oes yma.

### RHOI ENWAU WRTH DASGAU

**Beth?** Creu cynllun gweithredu a gofyn pwy sydd am wneud beth, ar ddiwedd y sgwrs syniadau.

**Mantais:** Rhannu'r baich, ac mae cofnod ar ddu a gwyn yn help i roi perchnogaeth.

**Gair o gyngor:** Holi 'pwy sydd am wneud beth?' ar ddiwedd y sgwrs, nid wrth i'r syniadau gael eu cynnig, rhag ofn y bydd person â llawer o syniadau'n gyndyn i siarad mwy!



### **YW TROSGWLWYDDO'N BWYSIG?**

Does neb eisiau cymryd cyfrifoldeb sy'n mynd i fod gydag e am byth.

Mae'n bwysig meddwl am ffyrdd o drosglwyddo wrth sefydlu 'swyddogion' ac wrth fynd mlaen.

### **DYMA AMBELL AIR O GYNGOR:**

Newid eich 'swyddogion' bob dwy flynedd, fan bellaf. Bydd yr hoe yn rhoi egni i rywun ymgymryd â'r gwaith eto.

Mae penodi 'is' swyddog yn gallu bod yn ffordd dda o raeadu.

Peidio bod ofn rhoi swydd i rywun newydd. Bydd y broses o fwrw ati a chymryd cyfrifoldeb yn werthfawr i bob unigolyn, hyd yn oed os yw hynny'n golygu bod angen buddsoddi yn eu meithrin yn y lle cyntaf.

Ceisio denu pobl mewn i'ch gweithgaredd gyda rhywbeth y byddan nhw'n joio, yn lle eu holi i fod yn 'swyddog' ar unwaith. Gallwch adeiladu ar hynny...

# ADNODD 4:

## SUT MAE PARHAU I GYNNAL PETHAU'N GYMRAEG?

Dyma 6 dull posib, rhad ac am ddim, o gynnal statws y Gymraeg wrth groesawu mewnfudwyr ar eu taith i gymhathu yn ein cymunedau

**WRTH DREFNU DIGWYDDIAD NEU BWYLLGOR YN EIN CYMDOGAETH, BETH AM I NI:**

- 1. CODI'R CWESTIWN:** Sut mae parhau i gynnal pethau'n Gymraeg a chynorthwyo mewnfudwyr i gymhathu?
- 2. CYNLLUNIO:** Dewis y dull mwyaf addas, a gwneud y trefniadau
- 3. CANLYNIAD:** Cryfhau

### **DULL 1: Popeth (bron) yn Gymraeg**

Beth am gynnal digwyddiad yn uniaith Gymraeg, gan roi gair byr o groeso yn Saesneg?

Esiampl: Cyngerdd talentau lleol

### **DULL 2: Siarad trwy'r trwch**

Symud yn gyson o'r naill iaith i'r llall heb ailadrodd

Esiampl: Gwasanaeth goffa

### **DULL 3: Crynhoi**

Cynnal y digwyddiad yn Gymraeg, gan baratoi crynodeb Saesneg ar bapur o flaen llaw

Esiampl: Perfformiad drama

### **DULL 4: Cyfeillio**

Siaradwr Cymraeg i eistedd gyda'r mewnfudwr a rhoi crynodeb syml a chyson

Esiampl: Cyfarfod Cylch Meithrin

### **DULL 5: Sylwebu ar-y-pryd**

Defnyddio meic a chlustffonau i gyfleu beth sy'n digwydd ac esbonio'r cyd-destun heb gyfieithu air am air

Esiampl: Eisteddfod leol

### **DULL 6: Cyfieithu bro**

Defnyddio meic a chlustffonau i gyfieithu ar y pryd yn anffurfiol

Esiampl: Sgwrs banel

# ADNODD 5:

## FFYRDD O GYNNWYS PAWB

Weithiau mae rhwystrau sy'n golygu bod pobl yn teimlo nad ydyn nhw'n gallu perthyn i rai mudiadau, cymdeithasau neu gymunedau. Wrth geisio cael gwared ar y rhwystrau, gallwn holi ambell gwestiwn i'n hunain a'u trafod, gan feddwl yw hyn yn rhwystr, oes angen newid rhywbeth, a sut.

**Sut ydyn ni'n cael ein gweld gan bobl o'r tu fas?**

**Oes rhwystrau cymdeithasol i rai pobl allu ymuno?** Efallai nad ydynt yn deall y mudiad a'i nod a'i natur, er enghraifft

**Oes rhwystrau ariannol gwirioneddol i bobl fod yn rhan o'r gweithgarwch?**

**Wrth hyrwyddo, ydyn ni'n gwneud hynny y tu hwnt i'n cylchoedd ni ein hunain ac mewn dulliau amrywiol?**

**Ydyn ni i gyd yn cyflwyno ein hunain ar ddechrau 'cyfarfodydd'?** Fyddai hyn yn arfer da sydd angen i ni ddechrau ei ddilyn?

**Ydy'r lleoliad yn fan hygyrch a chroesawgar i bawb?**

Gallai rhai deimlo na allant ymuno oherwydd rhwystrau penodol neu gorfforol. Mae'n bwysig adnabod yr anghenion a'r atebion, a gwneud trefniadau ar gyfer pobl nad ydym efallai'n gwybod beth yw eu hanghenion. Mae hefyd yn werth hyrwyddo'r ffaith bod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r ystyriaethau hyn.

### **AR GYFER POBL FYDDAR NEU RANNOL FYDDAR:**

Lleihau sŵn cefndir

Ei gwneud hi'n hawdd iddynt aros yn agos i'r sain/siaradwr i allu darllen gwefusau

Peidio siarad yn rhy glou

Holi'n hunain: yw pawb wedi cael cyfle i gyfranogi yn y sgwrs?

### **AR GYFER POBL DDALL NEU RANNOL DDALL:**

Yw trafniadaeth yn broblem o ran cyrraedd ein gweithgarwch?

A oes rhwystr i rywun sy'n ddall i gyfranogi, a sut mae goresgyn hynny?

Oes dulliau cyfathrebu gweledol yn cael eu defnyddio? Oes modd dod o hyd i ffordd wahanol o wneud hyn?

### **AR GYFER POBL SY'N DEFNYDDIO CADAIR OLWYN:**

A oes rhwystrau o ran cyrraedd y lleoliad?

Yw'r lleoliad ei hun yn addas i bawb?

Yw'r wybodaeth am y cyfleusterau wedi'i chyfathrebu'n glir?